


ACT 4: Maenorbŷr/Freshwater East



Yn cynnwys data Arolwg Ordans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawlfraint cronfa ddata.
Yn cynnwys data deiliannol Arolwg Ordans. Rhif trwydded Arolwg Ordans 100019741.

Graddfa'r map 1:97,000 @ A4
CB: EB:philipb LUC Location 31/01/2023
Source: OS, FC, NRW


Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afordir Penfro



ACT 4 Lleoliad ac Arwynebedd Coetir Presennol

- ACT 4: Maenorbŷr/Freshwater East
- ACT Cyfagos
- Coetir Presennol**
 - Coetiroedd Hynafol
 - Coetir Cenedlaethol y Goedwig*

*Diffiniad y RhGG o goetir ydy
ardal ag arwynebedd o leiaf 0.5 hectar





Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afordir Penfro




ACT 4 Dynodiadau Cadwraeth Natur

- ACT 4: Maenorbyr/Freshwater East
- ACT Cyfagos
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deiliannol Arolwg Ordnans, Rhif twydded Arolwg Ordnans 100019741.

CB: EB:philpb LUC Nature Designations 01/02/2023
Source: OS, NRW



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2022
Yn cynnwys data Cadw ©


Graddfa'r map 1:97,000 @ A4
CB: EB:philipb LUC Heritage 31/01/2023
Source: OS, Cadw

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro



ACT 4 Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol

- ACT 4: Maenorbŷr/Freshwater East
- ACT Cyfagos
- Tirwedd Hanesyddol Eithriadol
- Tirwedd Hanesyddol Arbennig
- Gerddi a Gerddi Cegin
- Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
- Heneb Gofrestredig
- Ardal Gadwraeth



Arwynebedd coetir presennol o fewn yr ACT



Golygfa i'r gogledd-ddwyrain tuag at Manorbier Newton, yn dangos caeau mawrion wedi'u hamgáu gan berthi ac ambell goeden aeddfed yn ogystal â choetir ar y llethrau ar ffin ogleddol yr ACT.

Nodweddir yr Ardal Cymeriad Tirwedd (Act) hon gan ardal fawr o iseldir tonnog gyda chynefinoedd lled-naturiol ar hyd yr arfordir yn cynnwys clogwyni, traethau a thwyni tywod. Coetir ydy 4.4% o gyfanswm arwynebedd y tir, ac mae'r rhan fwyaf o hwnnw (86.5%) yn llydanddail. Ceir rhai coetiroedd bach (llai na 10 hecтар) o siâp geometrig o fewn y dirwedd a amaethir (yn enwedig ar yr ymyl ddwyreiniol) ond mae'r rhan fwyaf o goed i'w gweld mewn lleiniau ar hyd dyffrynnoedd nentydd fel y coetir i'r gorllewin o Freshwater East, neu'n amgylchynu ardaloedd anheddog gan gynnwys Maenorbŷr, Freshwater East ac East Trewent. Mae coetir olynol yn gysylltiedig â'r system twyni tywod yn Freshwater East. Mae coetiroedd llinol yn dilyn rhannau o'r A4139 a'r rheilffordd sy'n croesi trwy'r ACT. Ymhlith rhywogaethau cyffredin y coetiroedd, mae coed sycamorwydd, ynn, derw a chyll. Ceir coed gwrychoedd yn fwy mynych mewn ambell ardal fach (e.e. caeau sribedi o amgylch Maenorbŷr a Jameston). Mae gwrychoedd, sy'n aml yn uchel, wedi tyfu tuag allan ac yn nodedig o ran amrywiaeth y rhywogaethau, yn ffinio â'r lonydd gwledig sy'n croesi'r ardal. Mae'n gyffredin i wrychoedd wedi'u tocio a geir ar hyd terfynau caeau ar raddfa fwy ac ar hyd yr arfordir gynnwys coed cyll, drain gwynion, drain duon a helyg llwyd. Nid yw coed yn nodwedd gyffredin mewn terfynau caeau yn agos at yr arfordir, ac eithrio ambell i onnen neu dderwen aeddfed. Mae coetiroedd llinol yn dilyn rhannau o'r A4139 a'r rheilffordd sy'n croesi trwy'r ACT.

Nodweddion dynodedig a phriodoleddau gwerthfawr yn yr ACT

Mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio ar sensitifrwydd a chyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd mewn perthynas â chymeriad tirwedd. Dim ond rôl gynghorol all fod iddo wrth bwysu a mesur manteision posib creu coetiroedd o'u cymharu ag effeithiau posib ar gynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd ac asedau treftadaeth ddiwylliannol, y dylid eu hystyried yn fwy manwl ar lefel safle. Gweler y prif adroddiad am ragor o fanylion.

Treftadaeth naturiol	ACA, AGA, SoDdGA GNG, GNL (yn cynnwys gwarchodfeydd Ymddiriedolaethau Natur /RSPB)	Mae pedair ACA sy'n cwmpasu 305ha (8.8%) o'r ACT. Mae pum SoDdGA yn yr ACT sy'n cwmpasu 303.4ha (8.8%) o'r ACT. Mae GNG Ystagsbwl yn cwmpasu 0.5ha (0%) o'r ACT. Mae un GNL sy'n cwmpasu 40.9ha (1.2%) o'r ACT.
----------------------	---	---

	Coetir hynafol RIGS	Mae 37.8ha o goetir hynafol (1.1%). Mae tri RIGS yn yr ACT, sy'n cwmpasu 53.3ha (1.5%) o'r ACT rhyngddynt.
Treftadaeth ddiwylliannol	Cofrestr Tirweddau Hanesyddol y Parc Cenedlaethol Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a data CAH	Mae Maenorbŷr a Chwningar Ystagbwl yn Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru sy'n cwmpasu 1542.7ha (44.7%) o'r ACT. Mae 54 o adeiladau rhestredig yn yr ACT. Mae'r 13 o Henebion Cofrestredig yn cwmpasu 11ha (0.3%) o'r ACT rhyngddynt. Mae Portclew a Maenorbŷr yn Ardaloedd Cadwraeth sy'n cwmpasu 44.5ha (1.3%) o'r ACT rhyngddynt. Mae Stackpole Court yn Barc a Gardd Cofrestredig; mae'n cwmpasu 21.1ha (0.6%) o'r ACT. Mae'r ACT yn cynnwys 567 o gofnodion CAH, sy'n cynnwys rhychwant o nodweddion archaeolegol a hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig a rhai heb eu dynodi, adeiladau hanesyddol sydd wedi'u rhestru a rhai sydd heb eu rhestru, a lleoliadau darganfyddiadau. Mae'r nodweddion hyn yn dyddio o gyfnod cynhanes i gyfnodau diweddar.

Sensitifrwydd y dirwedd i blannu coetir newydd

Elfennau sensitif allweddol	- Y Gefnffordd amlwg yng ngogledd yr ACT. - Yr arfordir dramatig gyda chlogwyni a phentiroedd gydag ambell i draeth tywodlyd rhyngddynt. - Presenoldeb cynefinoedd arfordirol o bwys rhyngwladol/cenedlaethol sydd wedi'u dynodi'n ACA/SoDdGA, gan gynnwys glaswelltir a rhostir, twyni tywod, clogwyni a baeau tywodlyd sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau (e.e. y frân goesgoch sy'n fforio ar laswelltiroedd agored). - Dyffryn nant a nodweddir gan goetiroedd, gan gynnwys lleiniau o goetir hynafol. - Y tir amaeth amgaeedig traddodiadol sydd ag ymdeimlad hanesyddol cryf o le ac yn cynnwys ardaloedd helaeth o systemau caeau canoloesol gyda chaeau strïbed nodedig. - Cyfoeth o safleoedd hanesyddol ac archaeolegol gan gynnwys y dirwedd faenorol sydd wedi'i chadw ym Maenorbŷr (Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Gofrestredig). Ceir dwy Ardal Gadwraeth ym Maenorbŷr a Phortclew. - Y nenlinau agored gyda golygfeydd deniadol ar draws yr arfordir a thu hwnt tuag at Ynys Bŷr yn ogystal â golygfeydd ar draws y dirwedd o'r cribyn uchel sy'n dynodi ffin ogleddol yr ACT. - Cymeriad gwledig traddodiadol y dirwedd sydd wedi dod dan ddylanwad cryf y lleoliad arfordirol hefyd.
Trosolwg	Mae ardaloedd a nodweddir gan gynefinoedd lled-naturiol a ddynodwyd yn hynod sensitif i blannu coed, yn enwedig y rhai a ddynodwyd yn ACA/SoDdGA megis y clogwyni arfordirol isel a'u rhostiroedd a glaswelltiroedd arfor. Mae tuedd i'r ardaloedd arfordirol fod a chymeriad mwy agored a digysgod a byddai plannu coed yma yn anghydnaws. Mae brig tîrfurf nodedig y Gefnffordd hefyd yn fwy sensitif i blannu coetiroedd oherwydd y cymeriad amlwg a'r golygfeydd eang allan o'r rhan hon o'r ACT. Mae'r systemau caeau strïbed traddodiadol nodedig yn hynod sensitif i blannu coetiroedd o unrhyw faint a allai guddio eu cymeriad nodedig. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i adfer a gwella gwrychoedd terfyn mewn ardaloedd sy'n amgylchynu'r caeau strïbed hyn. Mae'r dirwedd amaethyddol, i mewn o'r arfordir, yn llai sensitif i greu coetiroedd (hyd at raddfa bach-canolig) ac mae patrwm y caeau i'r gorllewin o Freshwater East yn fwy ac mae potensial yno ar gyfer greu coetiroedd hyd at raddfa ganolig, yn enwedig os cânt eu cysylltu â choetiroedd presennol yn y dyffrynnoedd. Byddai coetiroedd ar raddfa fawr yn anghydnaws â chymeriad yr ACT hon. Mae sensitifrwydd y dirwedd i goetiroedd cymysg o bob graddfa yn uchel ar gyfer yr ACT hon.

Sgoriau Sensitifrwydd Tirwedd

Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach (≤5ha)	Isel				
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach-ganolig (>5-15ha)		Isel-cymedrol			
Coetiroedd llydanddail ar raddfa ganolig (>15-30ha)			Cymedrol		
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fawr (>30ha)					Uchel

Cyfleoedd ar gyfer gosod coed a choetiroedd yn y dyfodol o fewn yr ACT

- Ymchwilio i'r posibilrwydd o blannu coetiroedd newydd (hyd at raddfa ganolig) yn rhan orllewinol yr ACT ble mae patrwm y caeau yn llai cywrain. Cysylltu coetiroedd presennol mewn dyffrynnoedd yn yr ACT ac yn yr ACT 5 cyffiniol: Ystagbwl
- Mae cyfleoedd i blannu coetiroedd hyd at raddfa fach-ganolig o fewn y dirwedd a amaethir neu ar hyd dyffrynnoedd nentydd, a fyddai'n atgyfnerthu cymeriad presennol y dirwedd trwy unioni â chyfuchliniau presennol y dirwedd yn ogystal â gwella cysylltedd cynefinoedd.
- Ymchwilio i gyfleoedd i ymestyn coetiroedd presennol a chysylltu â'r rhwydwaith gwrychoedd er mwyn gwella cysylltedd cynefinoedd.
- Mae cyfleoedd i greu coed pori er mwyn integreiddio rhagor o goed yn y dirwedd amaethyddol.
- Ystyried y potensial ar gyfer adferiad naturiol coetir a phrysgwydd lled-naturiol sy'n ymestyn ar hyd y cyrsiau dŵr er mwyn gwella rheolaeth llifogydd, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, ac i helpu i atal erydiad pridd.
- Lleoli coetiroedd ar hyd nentydd er mwyn lleihau dŵr ffo amaethyddol a sicrhau y cedwir y risg o ddigwyddiadau llygru dŵr cyn ised â phosib a diogelu traethau tywod.
- Mae creu coetiroedd (hyd at raddfa fach-ganolig) yn darparu cyfleoedd i feddalu siapiau geometrig coetiroedd presennol yn y dirwedd amaethyddol, a hynny'n fwyaf nodedig ar y llethrau sy'n wynebu tua'r de sy'n codi tuag at y Gefnffordd, ble mae planhigfeydd coniferaidd a choetiroedd cymysg onglog presennol yn weladwy o'r dirwedd ehangach.
- Lleoli coetiroedd newydd ar raddfa fach er mwyn sgrinio parciau carafanau/gwyliau (e.e. l'r gogledd o Faenorbŷr) ac i'w cymhathu i mewn i'r patrwm presennol o ddosbarthiad coetiroedd a defnydd tir.
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer gwella ac atgyfnerthu gwrychoedd terfyn ble maent wedi mynd yn fylchog neu wedi dirywio. Plannu coed gwrychoedd newydd ble byddai hynny yn gydnaws â chymeriad y dirwedd, gan ddewis rhywogaethau sy'n gwrthsefyll afiechydon (e.e. plannu coed derw yn lle coed ynn).
- Ystyried y cyfleoedd ar gyfer adfer ac ymestyn perllannau traddodiadol gan ddefnyddio coed ffrwythau traddodiadol.
- Dylai unrhyw blannu o'r newydd ddilyn egwyddorion dylunio da fel y'u gosodir yn Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig.
- Dylid dewis rhywogaethau cynhenid priodol sy'n gweddu i'r amodau lleol (e.e. hinsawdd, pridd, hydroleg, llystyfiant presennol) er mwyn sicrhau cymeriad clytwaith coetiroedd amrywiol.

Canllawiau strategol ar gyfer plannu coetiroedd / coed o'r newydd

Tirffurfiau a graddfa

- Osgoi cuddio tirffurfiau arfordirol a chribynnau/bryniau amlwg sy'n rhoi synnwyr o gyfeiriad yn y dirwedd.
- Cynllunio coetiroedd i gadw at gyfuchliniau a phatrwm tonnau presennol y dirwedd, megis y dyffrynnoedd nentydd llai sy'n ymestyn i lawr tua'r arfordir.

Gorchudd tir (yn cynnwys cynefinoedd lled-naturiol)

- Osgoi effeithiau niweidiol ar ardaloedd presennol o gynefin lled-naturiol nad ydynt yn goetiroedd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac annog amrywiaeth o rwydweithiau cynefinoedd. Mae hynny'n cynnwys cynefinoedd â dynodiadau rhyngwladol/cenedlaethol (ACA/SoDdGA) megis clogwyni, twyni tywod a glaswelltir/rhostiroedd arfor.

Patrwm caeau

- Adfer ac atgyfnerthu patrwm presennol y caeau trwy gadw ac adfywio gwrychoedd terfyn.
- Ystyried gadael i wrychoedd dyfu tuag allan (lle nad ydynt yn rhwystro priffyrdd/hawliau tramwy cyhoeddus) drwy leihau'r cylchoedd tocio/ffustio, er mwyn gwella bioamrywiaeth.
- Cadw coed gwrychoedd presennol a phlannu rhai newydd lle bo hynny'n briodol.
- Dylid ystyried plannu coed er mwyn mynd i'r afael â'r posibilrwydd y bydd coed ynn aeddfed sydd wedi'u heintio yn cael eu colli o wrychoedd, gan roi rhywogaethau eraill sy'n nodweddiadol yn lleol, megis derw yn lle'r coed aeddfed.

Cymeriad coed a choetiroedd presennol

- Cadw ac adfer coetiroedd a choed llydanddail lled-naturiol presennol yn y dirwedd, gan gynnwys terfynau caeau, er mwyn gwella cysylltedd a chryfhau fframwaith y dirwedd.
- Diogelu ardaloedd o goetir hynafol, gan gynnwys y rhai yng nghyffiniau Castell Maenorbŷr ac East Trewent. Clustogi coetiroedd hynafol drwy sefydlu ardaloedd cyffiniol ac annog adfywio naturiol.

- Annog rhychwant amrywiol o rywogaethau cynhenid er mwyn datblygu gwynwch rhag effaith pathogenau, plâu ac afiechydon, e.e. *Phytophthora*, *Chalara* (clefyd coed ynn).

Cymeriad hanesyddol

- Osgoi effeithiau niweidiol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar nodweddion archaeolegol, gan gynnwys safleoedd sydd â ffosydd yn eu hamgylchynu, caerau arfordirol a charneddi. Dylid cadw'r nodweddion hyn yn agored, a chael gwared ar brysgwydd – yn ddelfrydol, byddai hynny'n digwydd trwy bori ar raddfeydd priodol.
- Osgoi gosod coetiroedd ar draws nifer o gaeau gan y gallai hynny guddio'r system caeau sribedog ganoloesol hanesyddol.
- Mae rhan ddwyreiniol yr ACT yn cynnwys Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Gofrestredig Maenorbŷr a dylid ystyried hynny'n ofalus wrth gynllunio a lleoli coetiroedd newydd. Mae system y caeau sribedog yn rhan nodedig o'r Dirwedd Gofrestredig.
- Osgoi effaith niweidiol ar gymeriad a lleoliad Ardaloedd Cadwraeth, gan gynnwys y rhai ym Mhorthclew a Maenorbŷr.

Cymeriad gweledol

- Cadw'r golygfeydd helaeth a nodedig tua'r arfordir a'r tirweddau cyfagos o'r Gefnffordd sy'n ffurfio ffin ogleddol yr ACT. Wrth gynllunio a lleoli coetiroedd, sicrhau nad ydynt yn amharu ar y golygfeydd pwysig hyn.
- Cadw golygfeydd arfordirol nodedig, yn arbennig o Lwybr Arfordir Cymru/Llwybr Arfordir Penfro.

Rhinweddau canfyddiadol a golygfaol

- Cadw cymeriad agored a digysgod tir ar yr arfordir drwy osgoi plannu coed/coetiroedd yn y lleoliadau hynny.
- Ystyried cyfleoedd i wella neu i greu cyfleoedd mynediad o'r newydd wrth blannu coetiroedd.
- Ystyried effaith cronus creu coetiroedd a phlannu coed, gan sicrhau nad yw hynny'n arwain at newid cymeriad y dirwedd, yn enwedig yn y dirwedd fwy agored ar y llethrau uchaf.



Tir wedi'i amgáu gan goetir llydanddail uchel ar lethrau i'r de-orllewin o Freshwater East.



Golygfa tua'r de-orllewin dros y dyffryn coediog, The Downs, a leolir i'r gorllewin o Freshwater East.



Golygfa tua'r de ar draws yr arfordir agored i Gei Ystagbwl.



Caeau sribed graddfa fach â gwrychoedd aeddfed sydd wedi tyfu am allan yn ffurfio terfynau i'r gorllewin o Jameston.

